# Cynllun Hyfforddi Partneriaeth Pensiwn Cymru 2023/24

**Cefndir a Rhagarweiniad**

Mae'n arfer orau i bersonél PPC gael:

Gwybodaeth a dealltwriaeth briodol o:

- y rheoliadau a'r marchnadoedd sy'n gysylltiedig â phensiynau;
- cyd-fuddsoddi Cronfeydd Pensiwn Llywodraeth Leol; a
- cyfleoedd buddsoddi perthnasol.

Lluniwyd cynllun hyfforddiant y Bartneriaeth yn atodol at gynlluniau hyfforddiant cyfredol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd anghenion hyfforddiant ar lefel leol yn dal i gael sylw gan Awdurdodau Cyfansoddol, tra bydd cynllun hyfforddi'r Bartneriaeth yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithgareddau'r Bartneriaeth ynghylch cyfuno cronfeydd.

Dylai staff y Bartneriaeth fagu gwybodaeth a dealltwriaeth ddigonol i sicrhau y medrant gyflawni eu dyletswyddau fel y bônt yn gysylltiedig â'r Bartneriaeth.

Dylai'r staff hefyd fod yn ymwybodol o fframwaith y Bartneriaeth, ei chredoau, ei pholisïau a'i matrics llywodraethu, ynghyd â'r broses benderfynu a'r drefn o gofnodi penderfyniadau.

Awgrymir bod staff newydd y Bartneriaeth yn cwblhau hyfforddiant cyflwyno ffurfiol i gyrraedd y lefel o wybodaeth a nodir uchod. Yn dilyn hyfforddiant cyflwyno, mae disgwyl i staff gynnal eu dealltwriaeth o'r eitemau a nodir uchod, gan gwblhau unrhyw hyfforddiant ychwanegol yn ôl yr angen.

I gynorthwyo staff y Bartneriaeth, bydd yr Awdurdod Lletya yn trefnu sesiynau hyfforddiant chwarterol a fydd yn ymdrin â'r prif feysydd megis buddsoddi, gweinyddu, anghenion rheoleiddio, canllawiau'r Llywodraeth a datblygiadau'r farchnad. Noder y bydd yr Awdurdod Lletya yn cadw cofnod dan y cynllun hyfforddiant a fydd yn cynnwys manylion cyfredol o'r holl hyfforddiant y mae staff y Bartneriaeth wedi'i gwblhau, a'r hyfforddiant y bwriedir ei gynnal yn y dyfodol agos.

Yn bennaf, bydd digwyddiadau hyfforddiant y Bartneriaeth yn canolbwyntio ar fodloni anghenion hyfforddiant aelodau'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor; fodd bynnag, anogir yr Awdurdodau Cyfansoddol i wahodd Cadeiryddion eu Pwyllgorau Pensiynau hwythau, yn ogystal â Chynrychiolwyr y Bwrdd Pensiynau, os credant y byddai'r hyfforddiant o fudd i'r unigolion hynny.

Mae gan y Bartneriaeth Bolisi Hyfforddiant penodol ac fe ellir ei weld ar wefan PPC. Mae'r polisi yn rhoi rhagor o fanylion ar sut mae PPC yn ymdrin â hyfforddiant a datblygiad.

**Hyfforddiant Unigol**

Mae'n bwysig bod unigolion yn meddu ar lefel 'briodol' o wybodaeth a dealltwriaeth o'r gweithgareddau sy'n berthnasol i'w dyletswyddau o fewn y Bartneriaeth.

Yr arfer orau yw bod unigolion yn adolygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth eu hunain bob blwyddyn o leiaf, ac ymgymryd â dysgu pellach ar gyfer unrhyw feysydd a nodwyd fel rhai sydd angen sylw neu ddatblygiad pellach.

**Hyfforddiant 2023/24**

Rydym wedi nodi isod restr o bynciau hyfforddi y bydd yr Awdurdod Lletya yn eu trefnu yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24. Mae'r pynciau a amlinellir isod yn seiliedig ar flaenoriaethau amserol cyfredol WPP ac o ddadansoddiad o holiadur gofynion hyfforddi WPP/ymatebion asesu, a gwblhawyd gan aelodau'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu ('CBLl') a Gweithgor Swyddogion ('GS').

| **Pwnc** | **Dyddiad** |
|---|---|
| **Gwybodaeth am Gynnyrch** | |
| • Dosbarthiadau Ased Marchnad Breifat – Ecwiti / Eiddo Preifat | Ch1<br>Ebrill - Mehefin 2023 |
| • Ffyniant lleol / cyfleoedd datblygu | |
| **Adrodd** | |
| • Adrodd ar TCFD | Ch2<br>Gorffennaf - Medi 2023 |
| • Adrodd ar berfformiad | |
| **Buddsoddi Cyfrifol (RI)** | |
| • Pleidleisio ac Ymgysylltu | Ch3<br>Hydref - Rhagfyr 2023 |
| • Buddsoddi Cyfrifol o fewn is-gronfeydd WPP | |
| **Deall y Farchnad** | |
| • Cynnydd cronfeydd CPLlL eraill a Chyfleoedd i Gydweithio | Ch4<br>Ionawr - Mawrth 2024 |
| • Canllawiau Pŵlio | |

* Sylwch mai dyddiadau amcangyfrifedig yw rhain ac efallai y gallant newid